C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.
www.yfc-ceredigion.org.uk

# Rali 2026

# Cylchlythyr 20-5-26

## COTIAU GWYNION

**Cofiwch** fod angen i aelodau wisgo Cotiau Gwynion yn y cystadlaethau canlynol: Barnu Defaid Suffolk, Barnu Gwartheg Duon Cymreig, Barnu Merlod Adran A, Arddangosfa Ffederasiwn, Coginio, Crefft, Gosod Blodau, Gwisgo i Fyny, Gêm y Cenedlaethau Hŷn ac Iau.

## BARNU DEFAID SUFFOLK

Cynhelir y gystadleuaeth ar Fferm Llwynfynwent, Llangwyryfon, Aberystwyth, SY23 4HD, trwy garedigrwydd Mr a Mrs Owen Jewell a'r teulu ar Nos Fercher y 3ydd o Fehefin. Pawb sy'n cystadlu i fod yno am 6.00yh yn brydlon!! Cofiwch eich cardiau aelodaeth a chotiau gwyn. Mi fydd bwyd ar gael!

## PARCIO

Caniateir i bob Clwb ddod ag **un cerbyd** a threiler/lori fach i mewn i gae'r Rali er mwyn dal offer 'Arddangosfa Prif Gylch, 'Tablo', props ayyb.

## CYSTADLEUAETH YR AELODAU

A fyddech cystal â sicrhau eich bod yn cyrraedd mewn da bryd gogyfer â phob cystadleuaeth, ond yn enwedig ar gyfer y Coginio, Crefft a Blodau. Mae ceisio cael 60 o gystadleuwyr yn cario offer i mewn i un adeilad ar yr un pryd yn dipyn o sialens. Felly plîs, plîs, plîs gwnewch bob ymdrech i fod yno yn gynnar!! Disgwylir i bawb ond y cystadleuwyr i adael y sied unwaith bod yr offer /deunyddiau yn eu lle.

## CREFFT

Cofiwch gyflwyno eich eitem erbyn 10.00yb, 3ydd o Fehefin i'r Gwndwn, Campws Theatr Felinfach a danfonwch y fidio i'r Swyddfa erbyn 10.00. Mi fydd yr eitemau yn barod i'w casglu ar ôl 2.30yp.

## PWYSIG, PWYSIG, PWYSIG

**COFIWCH** edrych ar y **cyfyngiadau mesur** ac **amser** yn y cystadlaethau, mi fyddwn yn **CADW** at y rhain ar ddiwrnod y Rali.

## COFIWCH

Nid oes hawl clirio eitemau o'r Rali cyn 4.30yp!

## COGINIO

Rhaid i bob Alcof fod wedi'i baentio'n **Wyn** pan yn cyrraedd y gystadleuaeth. Cystadleuwyr yn **unig** sydd a'r hawl i'w haddurno cyn y gystadleuaeth. Ni fydd hawl ychwanegu dim i'r arddangosfa ar ôl yr awr. Mi fydd hawl rhoi'r ffyrnau 'mlaen yn syth pan yn cyrraedd y gystadleuaeth.

## BLODAU

Nid oes hawl gan gystadleuwyr ddod ag unrhyw help gyda nhw i'r gystadleuaeth boed yn lun neu gyfarwyddiadau. Rhaid arddangos y costau ar y dydd.

## ARDDANGOSFA FFEDERASIWN

Un Flex cord yn unig fydd hawl dod allan o'r Ystafell. Bydd angen i bob Arddangosfa ddod i safle Rali Nos Wener, 5ed o Fehefin rhwng 6.30 - 9.00yh.

## CNEIFIO

Rhaid i'r cystadleuwyr gyflwyno copi o'i Tystysgrif Prawf Medusrwydd NPTC neu Wobr Glas y Bwrdd Gwlân i'r Swyddfa erbyn 22ain o Fai. Rhaid i bawb ddefnyddio offer 'Worm Drive Only' a hefyd rhaid rhoi gwybod i'r Swyddfa erbyn y 22ain o Fai beth fyddant yn ei ddefnyddio; Flex neu Solid.

## COFIWCH!

Angen i bob ysgrifennydd i gasglu'r rhifau'r Clwb o Garafan y Swyddfa peth cyntaf yn y bore! **Cofiwch ddod â Safety Pins**!!!

## DYDDIADAU I'W GOFIO

**Dydd Gwener 22ain o Fai** = Angen i'r swyddfa dderbyn tystysgrifau Cneifio a chael gwybod beth fydd y cystadleuwyr yn eu defnyddio - flex neu solid.
**Dydd Llun, 1af o Fehefin** = Angen gwybod pa feics sydd angen ar gyfer Gadewch i ni eich Diddanu â'r Canu.
**Dydd Llun, 1af o Fehefin** = Angen i'r swyddfa dderbyn cerddoriaeth Brwydr Lip Sync, Dawnsio, Canu, Sioe Ffasiwn; Gadewch i ni eich Diddanu ac Arddangosfa Prif Gylch er mwyn sicrhau bod nhw'n gweithio. (drwy'r Portal neu We Transfer yn unig!)
**Dydd Llun, 1af o Fehefin** = Arddangosfa Prif Gylch - Cyflwyno sylwebaeth i'r swyddfa.